**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
—
**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Prif Weithredwyr Byrddau Iechyd

Neil Frow, Rheolwr Gyfarwyddwr Partneriaeth
Cydwasanaethau GIG Cymru

Dr Sian Lewis, Rheolwr Gyfarwyddwr Pwyllgor
Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru

4 Ebrill 2023

Annwyl gyfeillion

Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)

Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn craffu ar Fil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Yn ystod ein gwaith craffu, dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym mai un datblygiad a sbardunodd y Bil oedd y bwriad i gyflwyno'r Gyfundrefn Dethol Darparwyr yn Lloegr a'r dymuniad i sicrhau sefyllfa gyfartal yng Nghymru drwy gysoni systemau caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru a Lloegr. Byddem yn ddiolchgar pe gallech eich helpu ni i ddeall y goblygiadau posibl os na lwyddir i gysoni'r systemau hyn.


Yn ei thystiolaeth lafar ar 30 Mawrth 2023, dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrthym fod Llywodraeth Cymru yn awyddus i osgoi sefyllfa lle, er enghraifft, y gallai sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau yng Nghymru a Lloegr ddewis peidio â darparu gwasanaethau yng Nghymru, lle mae'r farchnad yn llai, gan fod y system gaffael yn wahanol. Byddai Cymru, wedyn, yn colli gwasanaethau.

Byddem yn hoffi deall maint posibl y risg.  Rydym yn ymwybodol o'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil, a'r dystiolaeth a roddodd y Gweinidog a'i swyddogion i ni ar 30 Mawrth, sef bod y Llywodraeth wedi trafod y materion hyn ag arweinwyr cyllid, caffael a chomisiynu GIG Cymru wrth iddi ddatblygu'r Bil.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech roi **unrhyw enghreifftiau penodol o gontractau neu wasanaethau ar gyfer gwasanaethau iechyd rydych yn eu caffael, ac y byddai perygl iddynt gael eu colli, neu y gallent newid mewn rhyw ffordd, pe bai cynigion y Gyfundrefn Dethol Darparwyr yn cael eu rhoi ar waith yn Lloegr, a phe na bai cyfundrefn debyg yn cael ei chyflwyno yng Nghymru**. Rydym yn sylweddoli y gallai'r cais hwn gynnwys gwybodaeth sy'n fasnachol sensitif; byddem yn fodlon trin unrhyw wybodaeth o'r fath yn gyfrinachol.

I ganiatáu i ni ystyried y wybodaeth hon wrth baratoi'n hadroddiad a'n hargymhellion mewn perthynas â'r Bil, byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb **erbyn dydd Llun 17 Ebrill 2023**.

Yn gywir



Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.